Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 12. Rhif 10.] HYDREF, 1912. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis.
Ymson y Myfyriwr.
Pe deuai Iesu!
Oddiar y Twr.
Y Pechod o Groesi'r Ffin.
Dros y Dôn. Sarnicol.
Dwy Ddameg.
Priodas.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

LLYFRAU AR WERTH . .

— GAN —

J. D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul.

GWEITHIAU GWILYM MARLES. 1s. 6c.
COFIANT PHILLIPS HOREB. Pris gostyngol, 1s.
WEDROSIA: Nofel Ddifyr. 6c.
YR YSGOL FARDDOL (gan Dafydd Morganwg). 2s.
ENWOGION CEREDIGION (gan Glan Menai). Ychydig gopiau, 1/6.
ODLAU MOR A MYNYDD (gan Sarnicol), 1s.; trwy y post, 1s.2c.

Y CLEFYD AR Y IEIR.

PAHAM y goddefwch i'r gelyn yma i wneud y fath golled i chwi, pan y mae meddyginiaeth sydd wedi ei phrofi yn sicr o'i atal, o fewn eich cyrhaedd? Danfonwch am dano ar unwaith; fe fydd prawf o un blwch ohono yn well i chwi na tudalen o siarad

1s. 10d. y blwch yn rhad drwy y post, neu dri am 5s.

ODDIWRTH Y GWNEUTHURWR—

John J. Davies, M.P.S., Chemist, Llanybyther.

— APPLICATIONS FOR AGENCIES ENTERTAINED. —

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . . Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD. HYDREF, 1912. [CYF. XII. RHIF 10.

AR EDYN FFYDD.

LLAWN YW'R DDAEAR O'TH GYFOETH.

Llawn, llawn,
Yw'r ddaear o dy ddwyfol ddawn,
Ar ddeulin, Ner addoli wnawn.
Mae'n weddus llawenhau yn wir,
A chwyddo moliant drwyy wlad,
Haelioni'n Tad a leinw ein tir.

Bri, bri,
O Dduw, sydd ar dy lwybrau di,
Yn dirion iawn i'n daear ni ;
O'n cwmpas mewn gogoniant llawn
Ar dy weithredoedd oll erioed
Dy enw roed yn dyner iawn.

Mawr, mawr,
O ddydd i ddydd, o awr i awr,
Yw'th ofal am dylwythau'r llawr,
Mae canu diolch am dy nawdd
I galon dyn mewn llawen hwyl,
Ar uchel-wyl yn orchwyl hawdd.

Mwy, mwy,
Na holl rasusau'r ddae'r i gyd,
Yw cariad Duw at bawb o'r byd ;
O fenaid tlawd, os gwag dy nyth,
Ehed at Dduw a chred ei air—
Cei ddogn a bair, cei ddigon byth.

Y Parch. EVAN REES (*Dyfed.*)

O DDUW a Thad ein ysprydoedd, y Gallu sy'n cynal, y Rhagluniaeth sy'n gwylied, a'r Cariad sy'n gofalu am danom ; dymunwn nesu atat fel plant, i geisio gwrandaw dy air, ac i deimlo dy law sy' bob amser yn barod i'n bendithio. Cyflwynwn i ti ein calonau. Dysgwyliwn wrthyt yn fwy nag y dysgwyl y gwylwyr am y bore. Anadla arnom yspryd sancteiddrwydd, a chariad, a thangnefedd. Deffro ynom y dymuniad aruchel a'r serch defosiynol a'n dwg ni i gymundeb agosach a Thydi. Dyrchafa ni uwchlaw gofalon hunangar bywyd ; uwchlaw pob amheuaeth ac ofn ; ac uwchlaw niwloedd a chymylau daear, fel y canfyddom ddysgleirdeb pur dy wirionedd a'th gariad anghyfnewidiol Di, fel y gwelom yn eglur y ffordd y mae i ni fyned, ac fel y gallwn, ar ol cael ein dwyn yn ol o'n mynych grwydriadau, rodio gyda thi mewn tangnefedd a llawenydd. Amen.

NODION Y MIS.

DYWED Marie Bashkirtseff ei bod hi yn ddedwydd wrth fod yn druenus. "Nid fi," meddai hi, "sydd yn pasio trwy'r truenusrwydd. Mae fy nghorff yn wylo ac yn crio: ond o'm mewn mae rhyw beth sydd uwchlaw i mi yn falch o hyn oll." Amlwg yw fod y foneddiges hon yn perthyn i fyddin yr eneidiau claf yn mhlith trigolion y byd. Mae yr eneidiau claf yn cyrhaedd uchelfan dedwyddwch pan ddisgynant i ddyfnderoedd prudd-der. Pan mae yr ocheneidiau yn ddwys a'r dagrau yn dyhidlo dros y gruddiau, mae dedwyddwch fel mantell cariad yn eu gordoi, a phelydrau gobaith fel yni ysprydol yn gwefreiddio drwy eu cyfansoddiad ac yn eu codi i'r seithfed nef. Dyfyna Emerson ddywediad meddyg yn ei draethawd ar "*Experience*" i'r perwyl fod credo dyn yn trigianu yn ei fustl. Os yw yr afu yn afiach mae y dyn yn troi yn Galfin, os bydd yr afu yn ddianaf mae y dyn yn dod yn Undodwr.

Anhawdd fyddai profi pa un ai tymheredd y Cymro berodd iddo droi yn Galfinaidd yn ei gredo, ac yn welw ei yspryd, neu ai Calfiniaeth berodd i'w enaid fyned yn glaf ac i'w dônau, a rhai o'i alawon gymeryd arnynt wedd brudd ac acen leddf. Amlwg yw fod cerddoriaeth sydd yn tramwyo drwy diriogaeth welw a phell, a chrefydd sydd yn aml ar gyffiniau y cyfriniol yn apelio at galon y Celt. Am fod ei ddychymyg yn chwim mae y Cymro wedi teimlo poenau yr oesau yn ei fywyd, ac wedi sylweddoli dyheadau ysprydol yr hil yn ei berson, ac mae croesau yr oesau wedi lleddfu ei natur i raddau helaeth, ac nid yw mwyach yn blentyn nwyfus ar draeth y tragwyddol, ond gwr mewn oedran sydd a pwys bywyd ar ei ysgwyddau, a dyheadau dwyfol yn ei enaid sydd yn ei yru i ymsom ar ddirgelwch y Cynfyd a tharddiad bywyd. Fel y foneddiges y soniwyd am dani mae y Cymro yn sugno ei hapusrwydd yn aml o'i drueni, yn gymaint felly fel mae rhai o'i gydwladwyr yn credu eu bod yn pechu trwy fod yn rhy lawen.

Canai un o fy hen athrawon glod Gibbon fel hanesydd yn ddibendraw. Gwnes addewid i mi fy hun y pryd hyny y gwnawn ddarllen ei hanes o Ymherodraeth Rhufain pan cawn hamdden. Mae yr addewid heb ei chyflawni eto, ond yr wyf wedi dechreu ar y gorchwyl. Dywed Gibbon mai y cyfnod mwyaf dedwydd a llwyddianus yn hanes yr hil ddynol oedd yr yspaid pan oedd Marcus Aurelius a'i ragflaenydd, Titus Antoninus, ar yr orsedd. Ond mor ansefydlog oedd y dedwyddwch hwn. Yr oedd yn dibynu yn uniongyrchol ar gymeriad un dyn, yr Ymerawdwr oedd yn teyrnasu ar yr Ymherodraeth

ryfeddaf yn hanes y byd. Yr oedd dedwyddwch y byd gwareiddiedig yn hongian ar bersonoliaeth un dyn. Yr oedd yn sefyllfa rhy ddyrchafedig i un gwr ei llanw. Dim ond dyn dwyfol ei bwerau allai lanw sefyllfa o'r fath gydag anrhydedd a llwyddiant. Gofalwn ni yn yr oes hon i beidio trosglwyddo ein hapusrwydd mewn ystyr boliticaidd i law un dyn. Nis gall brenin nac Arglwydd, gwladweinydd na llywodraethwr gael ffordd ei hun yn y deyrnas heddyw. Mae un blaid yn gwylio yn eiddigeddus weithrediadau y blaid arall. Mae un gradd mewn cymdeithas yn gwarchod yn ofalus y gradd arall: ac mae yr oll o'r teulu dynol yn goruwcholygu y personau mewn awdurdod yn y wlad. Yr ydym wedi dysgu y wers nad yw wiw i ni drosglwyddo ein hapusrwydd i ofal un person.

———

Araeth gref ac hynod draddododd Dr. Schäfer o flaen y Gymdeithas Brydeinig yn Dundee y mis diweddaf. Ceisiodd y gwr dysgedig hwn argraffu ar feddwl ei wrandawyr yr hen dyb, oeddym yn gredu fod ar dranc, nad oes dim ond mater yn cyfansoddi'r bydysawd. Nid oes dim llawenydd i'r enaid yn y syniad nad ydyw dyn ond tywarchen wedi dadblygu, neu lwch wedi dyrchafu ei hun mewn rhyw fodd dirgelaidd i feddwl, ymddiheu, caru, cenfigenu, maddeu a thosturio. Y pwnc ddylai gwyddonwyr geisio ei egluro yw y modd y gwnaeth yr hyn oedd farw ddyfod yn fyw. Y *missing link* mae Dr. Schäfer yn ymbalfalu am dani yw y modd y daeth defnydd marw yn sylwedd byw. Ond mae yn amlwg fod yr Athraw dysgedig hwn yn bruddglwyfus wrth sylweddoli i bl'e mae ei dyb yn ei arwain. Yn ol ei feddwl ef nid oes anfarwoldeb i bersonau. "Nis gallwn," meddai, "fod yn anfarwol ond trwy ein disgynyddion." Gobeithia y dysg dyn edrych yn y blaen at yr amser pan y torir ef i lawr fel ffrwyth addfed oddiar bren y bywyd, heb deimlo'n bruddglwyfus wrth sylweddoli ei fod yn syrthio i ddinystr bythol.

———

Mae swn wylofain yn syniad Dr. Schäfer am y bydysawd. Paham y gwna dyn i'w ddedwyddwch ddibynu ar un syniad o fywyd? Paham y rhaid i ni bino ein cred wrth y ddamcaniaeth nad oes ond mater, yn y ffurf y gwybyddwn ni ef, yn yr holl fyd? Ac os y darfu i fater ffurfio neu greu bywyd, paham y rhoddwn ni derfynau ar y gallu hwn a dweyd nas gall mater estyn bywyd tuhwnt i angeu a'r bedd? Os gwnaeth mater fywyd yn bosibl, paham nas gall ei wneud yn anfarwol? Nis gwyr neb beth ydyw mater yn ei hanfod. Ymddangosa mewn un agwedd yn ddim mwy sylweddol na phelydrau. Nis gall neb daflu goleuni ar draws y dirgelwch mawr hwnw a elwir yn fywyd. Ac mae ceisio esbonio bywyd yn nhermau mater yn freuddwyd twyllodrus gynygia ei hun i'r materolydd.

Mae llyfr o eiddo Rudolph Eucken wedi newydd ei gyfieithu i'r iaith Saesneg. Teitl y llyfr yn yr iaith hono ydyw "*Main Current of Modern Thought.*" Egwyddor ganolog Euken yn y llyfr hwn yw y gosodiad mai y bywyd ysprydol yw y bywyd hunan-gynwysedig, ac mai y bywyd hwn sydd yn rhoddi genedigaeth i bob sylwedd. Os ydym am esboniad o'r bydysawd nis gallwn fyth wneuthur hyny ond trwy gydnabod y bywyd ysprydol. Trwy gymhorth yr ysprydol y cawn weled y bywyd dynol yn y goleu iawn. Mae y bydysawd yn cael ei amgylchynu gan fywyd ysprydol diderfyn.

Wele, yntau, ddau Athraw dysgedig yn rhoddi o flaen y byd ddwy ddamcaniaeth wahanol o fywyd a'i darddiad. Mae un yn honi nad oes ond un defnydd allan o'r hwn y tarddodd bywyd, ac mai y defnydd hwnw yw mater. Ac fel cefnogaeth i ni goleddu y syniad dywed wrthym y bydd i ni ddiflanu fel gwlith y boreu wrth farw, ac nad ydyw wiw i ni ddisgwyl am anfarwoldeb ond yn ein disgynyddion. Mae yr Athraw arall yn tystiolaethu mai y bywyd ysprydol yw achos pob hanfod a sylwedd. Mae y bywyd ysprydol yn hunan-gynwysedig. Mae yn amgylchu pob peth. Mae yn egluro pethau. Mae yn rhoddi gwerth ar fywyd, ac amcan iddo hefyd. Nid ydyw Eucken yn anwybyddu y materol gyda'i gyfoethogrwydd o drysorau, ond yn cyhoeddi yn ddibetrus fod llawn ystyr bywyd yn cael ei amlygu pan y gwelwn ni ef yn dwyn delw yr ysprydol.

Mae yna ran o'r dynol sydd yn crefu am ddedwyddwch, ac am anfarwoldeb. Eglur yw nad oes gwir ddedwyddwch i'r enaid yn y syniad o ddiddymiant. Mae yna elfen ynom yn crefu am y tragwyddol, hyd yn oed pe baem yn gorfod pasio trwy brudd-der a thrueni er ei gyrhaedd. Digon tebyg fod Dr. Schäfer yn iawn pan y cyhoedda fod y bywyd corfforol yn darfod am byth. Credwn hefyd fod Eucken yn iawn pan y tystiolaetha mai y bywyd ysprydol yw achos pob sylwedd, ac felly nad ydym yn dibynu ar enedigaeth na marwolaeth y corff naturiol am ein bywyd. Beth bynag am hyn, mae ein dedwyddwch yn dibynu i raddau helaeth ar y syniad ein bod yn anfarwol ac yn ein hanfod yn perthyn yn agos i'r ysprydol.

Dydd Iau, Medi 12fed, dathlwyd dechreu blwyddyn newydd gan yr Iuddewon drwy'r holl fyd—y flwyddyn 5673 yn eu cyfrif hwy. Cedwir y dydd yn wyl a chynelir cyfarfodydd crefyddol yn y gwahanol synagogau.

YMSON Y MYFYRIWR.

NID fy mwriad, yn yr ysgrif hon, yw rhoi hanes sefydlydd Byddin yr Iachawdwriaeth; na rhoi desgrifiad o weithrediadau'r Fyddin o'i chychwyniad. Y mae hyn wedi ei wneud ddigon yn ystod y chwe' wythnos diweddaf mewn cyhoeddiadau ereill. Fy amcan, yn hytrach, yw rhoi mewn ffurf ysgrifenedig rai o'm myfyrdodau diweddar ar y pwnc—

Beth Sydd yn Cyfrif am Lwyddiant y Fyddin?

I bethau mawr y mae yn fynych ddechreuad bychan. Y mae hyn yn wir mewn modd arbenig am Fyddin yr Iachawdwriaeth. Dechreuad ar raddfa gyfyng—dim ond cenhadaeth ddi-nod yn un o ranau'r Brif Ddinas, gyda un dyn—neu, yn fwy cywir, un dyn a benyw—tu cefn iddi. Dywedaf un dyn a *benyw* am fod rhan fawr o'r clod yn ddyledus i Catherine Booth, gwraig y Cadfridog. "Dyma ddyn," meddwn, wrth ddarllen yr hanes, "yn dechreu ar y gwaith o godi gwehilion cymdeithas o ffosydd pechod, a'u gosod ar eu traed, a gwneud dynion a benywod o honynt. Y mae yn ymgymeryd â'r gwaith hwn heb ddim o'r pethau a ystyrir yn gyffredin yn angenrheidiol i lwyddiant. Nid oedd ond dyn tlawd, di-nod, cymharol anwybodus (ond o gynwys ei Feibl), heb ond mesur cyffredin o hyawdledd, heb yr hwn, fel y tybir yn gyffredin, y mae yn anhawdd i neb i enill clust y lliaws. Ac eto pan, ar ol yn agos i haner canrif o lafur yn ei faes hunanddewisedig, y mae yn gorfod rhoi ei arfau i lawr, y mae yn ben ar fudiad sydd wedi lledu drwy yr holl fyd gwareiddiedig." Beth yw dirgelwch y cwbl? Nid oes amheuaeth (mi gredaf) nad fod y llwyddiant i'w briodoli yn benaf i'r Cadfridog Booth ei hun. Yr oedd *y dyn* William Booth tu cefn i'r mudiad, onide ni fyddai wedi llwyddo i dori dros linellau cyfyng miloedd o genhadaethau lleol ereill. Desgrifir ef gan un o'i fywgraffwyr fel "dyn ar dân dros wneud daioni, nis gwaeth sut, nis gwaeth beth ddywed neb, nis gwaeth a ydyw dynion am i ddaioni gael ei wneud iddynt ai nid ydynt." Dyma ddywediad o eiddo'r Cadfridog ei hun: "Mi safwn ar fy mhen ar gopa Eglwys St. Paul, pe meddyliwn y gallwn gynorthwyo rhywun drwy wneud hyny." Y mae'r uchod, yn ddiau, yn ddesgrifiadau lled gywir o hono; a rhoddant i ni olwg ranol ar ffynhonell ei lwyddiant. Ond rhaid myned yn mhellach na hyn.

Beth a'i Gwnaeth yn Ddyn ar Dan

dros wneud daioni? Yr unig ateb a fedraf fi roi i'r gofyniad yw hwn—ei ffydd angerddol. Y ffydd a enynwyd ynddo pan yn ieuanc—ffydd a ddaeth yn elfen fwy-fwy angerddol yn ei galon fel yr heneiddiai—alluogodd y dyn rhyfeddol hwn i wneud y gwaith bendithiol a wnawd ganddo yn ystod ei fywyd hir. Cawn ynddo ef eglurhad

ymarferol o un o ddywediadau mwyaf adnabyddus y Meistr—"Pe bai genych ffydd megis gronyn o had mwstard * * * * ni bydd dim anmhosibl i chwi." Dyna ffynhonell ddechreuol ei lwyddiant—ei ffydd. Ni wnai efe roi mynegiad i'w ffydd yn yr un fath eiriau ag y rhoddem ni fynegiad i hyny o ffydd sydd genym ni. Y mae mynegiadau geiriol o ffydd yn amrywio yn ddirfawr. Y mae hyn yn anocheladwy. Ond er yr amrywiaethau geiriol hyn, y mae ffydd, ynddi ei hun, pan yr awn i fewn at ei chalon, heibio i'r geiriau, heibio i'r wisg allanol, yn hanfodol yr un peth.

Beth oedd Elfenau Blaenaf ei Ffydd Ef?

Nid y safle Galfinaidd, eithr yr un Arminaidd, oedd yr eiddo ef. Credai efe fod modd cadw pawb, ac nid cadw'r ychydig etholedig. Ond credai, er hyny, fod pob dyn wrth natur yn bechadurus; ac nad oedd ond colledigaeth yn ei aros tra y parhai yn yr ystad bechadurus hon. Credai, hefyd, fod Duw wedi darparu moddion i gadw dyn—trwy grediniaeth yn rhinwedd marwolaeth (neu waed) Crist. Y rhai hyn, mi gredaf, oeddent elfenau canolog ei gredo. Meddyliwn am danynt am foment. Y fath nerth raid fod gan feddyliau o'r fath hyn i gymhell y sawl a gred ynddynt i wneud a fedr i achub y colledigion. Meddylied y darllenydd ei fod yn credu yn wirioneddol fod ei gyd-ddynion a ddeuant i gyffyrddiad dyddiol ag ef yn wrthddrychau colledigaeth, a'i bod yn ei allu i wneud rhywbeth i'w hachub. Ai ni fyddai'r fath feddwl yn allu digon cryf i'w yru i wneud yr oll a fedrai i'w hachub? Byddai, yn sicr; neu, o leiaf, dylai fod. I ni,

Meddyliau Cyfeiliornus

yw y rhai hyn. Ni chredwn ni fod dyn yn gyflwyr bechadurus wrth natur. Ni chredwn ni fod un dyn yn wrthrych colledigaeth bythol. Ni chredwn ni yn y cynllun "iawnffyddol" o achub. I ni, *nid oes un dyn* nad oes elfen o ddaioni yn ei natur; ac *nid oes un dyn*, ychwaith, nad oes elfen o bechod yn ei natur. I ni, mae'r fath feddwl a chospedigaeth dragwyddol yn gabledd ar gymeriad y Tad perffaith. I ni, nid achubiaeth swyn-gyfarol trwy Grist yw'r achubiaeth iawn. Credwn ni, yn hytrach, mewn dadblygiad, Y mae dyn yn graddol ymddatblygu i'r dyn perffaith. Ac yn nghwrs y daith raddol—a graddol iawn ydyw—at y dyn perffaith, y mae dyn yn fynych yn llithro, yn fynych yn codi. Llithro a chodi, felly, yw elfenau amlycaf hanes pob bod dynol. Ac i ni,

Yr Unig Achubiaeth yw Hyn—

fod dyn, pan yn llithro, yn cael ei gynorthwyo i godi drachefn. Y mae llawer o gyfryngau i ddwyn hyn oddiamgylch. Ond nid oes un cyfrwng mwy effeithiol nag esiampl y dyn da. Dyma sut y mae Iesu yn achub—trwy ddylanwad ei fywyd. Yn edrych ar y materion hyn

(fel y gwnawn) yn y goleuni hwn, nid yw syniadau'r Cadfridog Booth yn apelio dim atom ni. Ond yr oedd efe yn credu ynddynt a'i holl feddwl a'i holl galon. A "rhydd i bob meddwl ei farn, ac i bob barn ei llafur," onide?

Y Ddau Feddwl Hyn—

elfenau pwysicaf ei ffydd angerddol—oedd (fel yr ymddengys i mi) wrth wraidd ei fywyd rhyfeddol gyfoethog o wasanaeth i Dduw a dyn—o wasanaeth i Dduw am ei fod yn wasanaeth i ddyn. A heddyw, pan y mae ei yspryd wedi dychwelyd at yr hwn a'i rhoddodd ar y dechreu, ar ol bywyd hir o lafur a hunan-gysegriad i'r gwaith o achub eneidiau, nid oes yn nghalon pob dyn a gâr weled y gwrthodedig a'r sathredig a'r llithredig yn cael eu hadfer i fywyd glanach a phurach ond teimlad diffuant o barch i'w goffadwriaeth. "Da, was da a ffyddlawn": buost ffyddlon i'th ymddiriedaeth; a bu i ti, os y bu i neb erioed, yn ddios, yn awr dy ymddatodiad, fynediad helaeth i fewn i dragwyddol lawenydd dy Arglwydd.

Myfyriwr.

PE DEUAI IESU!

Ie, pe deuai heddyw, sut dderbyniad gawsai? Pan y daeth gynt at yr Iuddewon yn Mhalestina, hwy a'i gwrthodasant. A ydyw yn rhyfedd? Mae'n wir eu bod wedi dysgwyl y Messeia am ganrifoedd. Pe buasai wedi dyfod ar gymylau'r nefoedd, gyda gosgordd o angylion yn ei ganlyn, buasai llinellau'r hanes yn wahanol iawn. Adwaenent ef felly, gan mai dyna'r modd y dysgwylient ef i ddyfod. Pe wedi dod felly cawsai dderbyniad tywysogaidd. Ond ni ddaeth felly. Yr oedd yn wahanol yn mhob peth i'r hyn a ddysgwylient hwy. Yn lle dod fel brenin, yn lle dod o Jerusalem, mewn rhwysg a mawredd, i osod i fyny'r Deyrnas ac i ddyrchafu eu cenedl hwy i fod yn ben teyrnas y byd, efe a ddaeth o Galilea, efe a ddaeth o Nazareth, y lle nas dysgwylid un daioni i ddyfod o hono—yn ddyn tlawd ac heb le i roddi ei ben i lawr. Na, a dweyd y gwir yn onest ac yn ddiduedd, nid yw ryfedd i'r Iuddewon ei wrthod. Ni pherthynai iddo gymaint ag un o'r nodau a ddysgwylient hwy fyddai ar y Messeia.

Pe deuai Iesu, pe deuai heddyw, pe deuai i Chicago, pe deuai i Lundain, pe deuai i Gymru, a gawsai efe well derbyniad? Cofiwn ddarllen rai blynyddau'n ol adroddiad y Parch. Moncure Daniel Conway o ymddiddan a gymerodd le rhyngddo ef a

Phregethwr Iuddewig.

Digwyddent fod yn teithio gyda'r un tren, ac yn yr un adran o'r tren, ac yn naturiol aeth yn ymgom rhyngddynt—yn ymgom ar grefydd. Gellid dysgwyl na fyddai'r ddau yn gallu

edrych ar bethau drwy yr un spectol, ac yn gymaint a'u bod mor wahanol i'w gilydd o ran natur ac o ran dygiad i fyny, ni allai lai na fyddai pob peth yn ymddangos yn wahanol iawn lddynt. Ond yr un peth yn neillduol oeddwn am hel ato oedd hyn—sylw yr Iuddew ar bwnc y llinellau sydd yn awr mewn llaw. Ebe efe—Pe deuai Iesu i Brydain heddyw yn hollol yn yr un wedd ag y daeth at yr Iuddewon gynt, nid oes yr un enwad yn yr holl wlad, o'r 200 mwy neu lai sydd yma, a roddasai iddo dderbyniad a groesaw. Ni fuasai'r un o honynt yn ei adnabod. Buasai telerau aelodaeth gyda phob un o honynt yn gyfryw na allasai Iesu byth ddygymod a hwynt.

Tybiwn ein bod yn galw heibio rai o honynt. Pe'r elai at ddrws

YR EGLWYS BABAIDD,

a gofyn am gartref crefyddol yn eu plith, cawsai fod yn rhaid iddo fyned trwy lawer o holi a chaboli. Rhoddasid ar ddeall iddo mai eu heglwys hwy oedd yr unig wir eglwys, yr unig un y gellid dysgwyl myned yn sicr a diogel allan o honi i'r nefoedd ; fod ganddi bab anffaeledig yn ben arni, ac offeiriaid lu a chanddynt allweddau nefoedd ac uffern yn crogi wrth eu gwregys. Byddai'n rhaid iddo ufuddhau i holl orchymynion y rhai hyn, a gwrando a derbyn pob peth ddywedent wrtho, heb nacau dim ; yn nghyd a llawer o bethau eraill nas gallwn am foment gredu y gallasai Iesu byth ymostwng iddynt.

A phe dygwyddasai iddo fyned wedi'n at ddrws

YR EGLWYS WLADOL,

o'r braidd y dysgwyliem iddo gael dim gwell derbyniad. Tebyg iawn y byddai llawer o lygadu arno—llawer o edrych ar ei wyneb glaswyn, ar ei wisg lom a charpiog, a cheid ambell i un fel pe mewn ofn rhag iddo ddyfod yn rhy agos atynt a difwyno eu sidanau dysglaer. Eto, ar ol holi, cawsai fod llawer o bwys yn cael ei osod ar yr hyn sydd yn myned dan yr enw olyniaeth apostolaidd ; a chawsai ar ddeall fod yr hwn sydd wedi bod dan ddwylaw esgob yn rhywfodd yn wahanol i bobl eraill. Cyn hyny, nid oedd dim gwahaniaeth ; ond wedi hyny yr oedd yr offeiriad yn sianel neu yn gyfrwng ysprydoledig i drosglwyddo moddion gras mewn ffordd na fedr neb arall wneud. Cawsai glywed hefyd am y namyn un erthygl a deugain, ac am y tair credo sy' mor bwysig yn eu golwg i iachawdwriaeth dyn ; ac yn enwedig yr hon a elwir Credo Sant Athanasius—er na welodd Athanasius erioed mo honi—yn yr hon y dywedir, "Yr hon ffydd onis ceidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalog, diameu y collir ef yn dragywydd." Ni ddarfu i Iesu ei hunan erioed awgrymu dim yn debyg i'r syniad fod iachawdwriaeth dyn yn glymedig wrth ddim yn debyg i gredo Sant Athanasius ; ac nis gallwn gredu y derbyniai Iesu aelodaeth ar unrhyw delerau tebyg i'r rhai a gynwysir yn y gredo hono.

Cofier mai awgrymu y rhwystrau yr ydym, y rhwystrau fyddai ar ffordd Iesu pe'n ceisio am aelodaeth eglwysig y dyddiau hyn. Nid oes genym yr un bwriad i ddibrisio yn unrhyw fodd y rhagoriaethau mawrion a berthyn i'r holl wahanol eglwysi, a'r gwaith ardderchog a gyflawnant, neu a geisiant gyflawni, bob un o honynt. Gyda hynyna o ymddiheurad, awn gam yn mlaen.

Credwn fod rhwystrau cyffelyb mewn cysylltiad a'r holl enwadau anghydffurfiol. I enwi ond ychydig, ni ellid cyfrif hwnw yn Fethodist da yn Nghymru, yr hwn ni dderbyniai Bum' Pwnc Calfin ; ac er na fedd y Wesleyaid y medr i ganu gyda John Calfin,

> Etholedig cyn fy ngeni
> Etholedig wedi meddwi,

na'r gallu i ddefyddio'r Pum' Pwnc fel careg rhwystr i gadw pobl annymunol allan, eto y mae ganddynt hwy, fel y mae gan yr enwadau eraill

—yr Anibynwyr, y Bedyddwyr, &c., eu clwyd pump asen (five barred gate) sydd yn effeithiol ddigon i ateb y pwrpas mewn golwg. Gwir eu bod yn galw eu hunain yn Eglwysi Rhyddion; ond nid ydynt yn rhyddion yn unrhyw fodd mewn ystyr grefyddol.

Cofiwn ddarllen yn yr hen lyfr eiriau tarawiadol ar y pwnc—"Nac anghofiwch letygarwch, canys wrth hyny y lletyodd rhai angylion yn ddiarwybod." Gallwn feddwl fod yn y llety hwnw deulu dedwydd iawn. Ond gadewch i ni gyfleu'r geiriau atom ein hunain. Pe deuai. Ie, beth pe deuai i un o gapelau yr Undodiaid. A ydym yn sicr y cawsai roesaw calon genym? Nid rhyw roesaw cynes iawn y rhoddir bob amser i ddieithriaid yn ein plith—y dynion dod, fel eu gelwir. Os un o "dlodion byd" fydd, o'r braidd y rhoddir iddo'r un derbyniad gwresog ag a roddir i'r gwr a'r "fodrwy aur a'r dillad gwychion"; ac odid na cheisir rhyw esgus yn fuan i ddweyd nad yw y tlawd hwn ddim yn "un o honom ni"—nad yw e' ddim yn Undodwr, fel pe byddai hyny o ryw bwys. Er iddo fod yn brydferth ei rodiad, yn lân ei fuchedd, ac yn ffyddlon gyda'i gydgynulliad, ni chyfrif hyny ddim yn meddwl ei feirniad; ni fydd iddo esmwythdra na dim cysur mwy yn y synagog hwnw. Nid oes amheuaeth nad yw enwadaeth yn cyfrif gormod yn meddwl hyd yn oed llawer i Undodwr, a'u bod trwy hyny yn codi gwahanfuriau diangen iawn i rwystro eraill i ymuno a hwynt. Gofynir weithiau, Paham nad yw Undodiaeth yn cynyddu? Un paham yw—Nad yw'r Undodiaid eu hunain ddim yn dangos yr un awydd i'w gwel'd yn cynyddu. Soniant am ragoriaeth eu ffydd, ond pa beth wneir ganddynt i wneud yr un ffydd yn eiddo eraill?

Y mae gan bob enwad felly fath o Glawdd Offa wedi ei godi, nid i hyrwyddo lledaeniad yr egwyddorion a gyfrifir yn anwyl ganddynt, ond i'w rhwystro. Credwch gore gellwch gyfeillion, bawb o honoch, o bob enwad; ond peidiwch gwthio'r hyn gredwch i lawr i wddwg pobl eraill yn groes i'w dymuniad. Os gwelwch ddyn mewn angen, nid iawn i chwi ei foddran drwy ofyn—Beth yw ei Gyffes Ffydd; pwy yw ei weinidog; neu i ba gapel y mae'n myned? Nid felly y gwnai General Booth, ei gais cyntaf ef fyddai cael gafael yn y dyn, a'i osod ar ei draed a'i ddysgu i gerdded yn union. Dysgu'r wers iddo—peidiwch a gwneuthur drwg, dysgwch wneuthur daioni. Pan syrthiodd y dyn dros y dec i'r mor, meddwl cyntaf y morwr oedd, ie, ei gyntaf, a'i ail, a'i holl feddwl oedd—achub y dyn; nid felly y clerigwr. Pan welodd efe'r morwr yn ymddiosg o'i wisg, mae'n gosod ei law ar ei ysgwydd ac yn gofyn, a ydych yn barod i farw? Try hwnw ato, ac etyb, o bosibl dipyn yn sarug—ni ddeuaf yn fwy parod os esgeulusaf y ddyledswydd hon!

Fe ddywedir fod Mrs. Besant, y Theosophist enwog, yn dysgwyl

AIL YMDDANGOSIAD

ein Harglwydd Iesu Grist heb fod yn faith. Y mae Mrs. Besant, yn ddiameu yn un o fenywod mwyaf talentog yr oes, ac am ei phroffwydoliaeth, nid oes eisieu i ni ameu. Y mae awgrym tebyg wedi ei roi o'r blaen: am hyny byddwch chwithau barod, canys yn y dydd a'r awr ni thybioch y daw Mab y Dyn. Os na ddaw yn llythrenol bersonol, fe ddichon y gall ddod, fel y dywedwyd am hwnw gynt, yr elai "o'i flaen ef yn yspryd a nerth Elias, i droi calonau y tadau at y plant, a'r anufudd i ddoethineb y cyfiawn, i ddarparu i'r Arglwydd bobl barod."

Fe ddywedodd y diweddar brifathraw Dr. Charles Edwards gynt yn Merthyr Tydfil fod y "Llong Fethodistaidd"

YN CARIO GORMOD O FALAST

a bod eisieu eu hysgafnu. Y mae lle i ofni fod yr holl enwadau yn gyffelyb yn cario gormod o falast, yn pwys-

fawru'r pethau dibwys ; fel yr Iuddewon gynt yn edrych ar ol y mintys a'r anis a'r cwmin, ac yn esgeuluso barn a thrugaredd a ffydd. Arferai Socrates, y doethaf o'r Groegiaid, ddweyd fod y cerfiwr yn cael gafael yn ei *ffigwr* yn y darn marmor ; wrth daro i ffwrdd y rhanau afreidiol neu ddiangen, yr oedd y *cerflun* yn raddol yn codi i'r golwg.

Mae'r pwnc mawr a'r pwnc pwysig i'r holl enwadau yn gynwysedig yn ngeiriau'r proffwyd—Trefna dy dŷ. Ceisier gosod y ty mewn trefn fel y galler bod yn sicr fod genym roesaw i'r Athraw pan y daw. Nid oes yn yr un gredo ddim gwerth ond cymaint ag a ellir droi i fywyd a buchedd lân. Ni fydd o fawr diben gwaeddi Arglwydd, Arglwydd, oni fyddwn yn gwneuthur ewyllys ein Tad nefol. Swm y cwbl a glybuwyd yw, ofna Dduw a chadw ei orchymynion. Yn gwneuthur daioni na ddiogwn, canys yn ei iawn bryd y medwn, oni ddiffigiwn. Gwrando'r geiriau a'u gwneuthur yw yr hyn ofynir genym.

Ye different sects who all declare,
Lo ! Christ is here and Christ is there,
Your stronger proof *divinely* give,
And shew me where the Christians live.—*Wesley*

S.N.S.

ODDIAR Y TWR.

Yr wythnos gyntaf o fis Medi, cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol y

Gymdeithas Brydeinig

yn Dundee ; ac am reswm neillduol, at yr hwn y cyfeirir yn y man, tebyg y saif y cyfarfodydd hyn allan yn mhlith y mwyaf nodedig o gyfarfodydd y Gymdeithas er ei sefydliad. Cyn myned yn mhellach, fodd bynag, rhaid dweyd gair am y Gymdeithas ei hun. Ei henw llawn yw—"Y Gymdeithas Brydeinig er hyrwyddo Gwyddor." Sefydlwyd hi yn 1831 gan Syr David Brewster ac enwogion ereill yn myd gwyddor yr adeg hono. Ac er y flwyddyn uchod y mae ei chyfarfodydd blynyddol wedi eu cynal yn rheolaidd mewn gwahanol drefi yn yr Ynysoedd Prydeinig, ac ar ddau achlysur tu allan iddynt, yn Nghanada yn 1884, ac yn Neheu Affrig yn 1905. Yn y cyfarfodydd darllenir papyrau ar bynciau gwyddorol, dygir i sylw ddarganfyddiadau newydd, a thrinir materion yn dal perthynas â'r amrywiol ganghenau o wyddor. Gellir ystyried y Gymdeithas, mewn gair, fel math o

Senedd y Gwyddorau.

Ar ol pob cyfres o gyfarfodydd, cyhoeddir y papyrau, yr anerchiadau, &c., yn gyfrol hardd. Y mae llawer iawn o gynwys y cyfrolau hyn o ddyddordeb cyffredinol, er fod yr ymdriniaeth o'r gwahanol bynciau yn fynych yn mhell uwchlaw gallu'r cyffredin o ddynion i'w dirnad. Eto, medd yr hwn a ddilyna gwrs gweithrediadau'r Gymdeithas o'r dechreu trwy gyfrwng y cyfrolau blynyddol hyn syniad gweddol glir gyda golwg ar y cynydd wneir o flwyddyn i flwyddyn a'r cynydd sydd wedi ei wneud yn nghwrs y pedwar ugain mlynedd diweddaf,—cynydd nas gall yr hwn a fedd ddirnadaeth gweddol

gywir o'i faint lai na rhyfeddu o'i blegid. Beth sydd yn gwneud cyfarfodydd y flwyddyn bresenol yn Dundee yn rai eithriadol o nodedig? Nid dim llai nag anerchiad Llywydd y Gymdeithas, y Proffeswr Schäfer o Edinburgh, ar y pwnc—

BETH YW BYWYD?

neu, i roi teitl yr anerchiad yn gyflawn, "Natur, Tarddiad, a Chynhaliaeth Bywyd." Nid hawdd yw rhoi crynodeb o gynwys anerchiad o'r fath hyn tu fewn i gwmpas byr; ac nid amcanaf wneud hyn yn awr. Ni wnaf ragor na chyffwrdd â chnewllyn yr anerchiad. Yr hen syniad am darddiad bywyd oedd yr un geir yn nechreu Genesis, sef, fod dyn wedi dod i fodolaeth gyntaf trwy weithred greadigol arbenig o eiddo'r Bod Dwyfol - Duw. "Duw hefyd a ddywedodd, Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain. * * * * Felly Duw a greodd y dyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y creodd efe ef: yn wryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt"; neu, yn ol y cyfrif yn yr ail benod o'r un llyfr, "A'r Arglwydd Dduw a luniasai y dyn o bridd y ddaear, ac a anadlasai yn ei ffroenau ef anadl einioes: a'r dyn a aeth yn enaid byw." Ni ddywed awdwyr Genesis pa mor bell yn ol y cymerodd hyn le—ni ddywedant ragor nag mai yn y dulliau hyn y daeth dyn i fodolaeth gyntaf. Ac hyd yn mhell yn y 19eg ganrif, ni ddaeth i feddwl y byd Cristionogol i ameu cywirdeb y ddau gyfrif hyn. Efallai (a thebyg) fod llawer o Gristionogion yn parhau i'w credu o hyd. Ond i'r sawl ydynt wedi eu dwyn i adnabyddiaeth o ymchwiliadau'r haner cant neu driugain mlynedd diweddaf i hanes gorphenol dyn, y mae rhoi cydsyniad i'r cyfrifon uchod o ddulliau dechreuad dyn yn anmhosibl. Y mae

DARWIN,

yn nghyd ag ereill ydynt wedi cario ei ymchwiliadau ef yn mhellach, wedi ein dysgu i gredu mai datblygiad yw dyn o ffurfiau ïs o fodolaeth. Pan ymddangosodd ffrwyth ymchwiliadau Darwin (a Wallace) yn 1859, perodd gyffro trwy'r holl fyd crefyddol nad yw yn hawdd i ni heddyw i'w sylweddoli. Gelwid ef wrth bob enw adgas y gellid ei ddyfeisio—gelyn a dymchwelwr y ffydd, gwas y diafol, anffyddiwr, &c. Y mae haner canrif wedi myned heibio oddiar hyny, a gwelir yn awr mor ddi-sail oedd yr ofnau a gynyrchwyd gan ei ddarganfyddiadau, mor anghyfiawn oedd y driniaeth roddwyd iddo. Y mae'r syniad o ddatblygiad, bellach, yn cael ei dderbyn gan bron yr oll o'r byd Cristionogol, ac nid yn unig nid yw crefydd ddim gwaeth, ond y mae wedi ei gosod ar sylfaen gadarnach oherwydd y darganfyddiad mawr hwn. Er's blynyddau bellach, y mae'r byd crefyddol wedi llithro i dawelwch, mor bell ag y mae'r syniad o ddadblygiad yn myned. Ond pan y mae'r byd crefyddol fel hyn yn nghanol mwynhad o'r tawelwch hwn, dyma'r Proffeswr Schäfer yn ymddangos ar y maes, ac yn

TAFLU TAN-BELEN ARALL I'R GWERSYLL.

Beth yw hon? Y mae yn cario'r syniad o ddadblygiad ris yn mhellach nag y gwnai Darwin a'i olynwyr. Nid yn unig y mae dyn yn ddadblygiad o ffurfiau ïs o fodolaeth (neu o fywyd), medd y Proffesswr mewn effaith, *ond y mae bywyd ei hun yn ddadblygiad o'r hyn ellir ei alw yn fater di-fywyd.* "Y mae cynydd diweddar mewn gwybodaeth," meddai, "yn awgrymu'r tebygolrwydd fod y llinell wahaniaethol rhwng mater difywyd a mater bywydol yn llai amlwg nag yr arferid ei hystyried hyd yma." Yna, dywed yn mhellach, "ymddengys yr ystyriaethau hyn fel yn cyfeirio at y casgliad nad yw'r posibilrwydd o gynyrchu bywyd mor bell ag y cymerir yn ganiataol yn gyffredin ei fod." Ystyr hyn, mewn geiriau ereill, yw—nad yw yn anmhosibl na ellir, yn y dyfodol agos efallai, gynyrchu bywyd yn ngweithdy'r

fferyllydd. Y mae hyn yn ddigon, mi obeithiaf, i roi i'r darllenydd ryw ddrychfeddwl am natur y syniad newydd. Y mae hyn i gyd yn awgrymu un gofyniad—

BETH FYDD EFFAITH HYN

ar feddwl crefyddol ein hoes? Nid anhebyg na cha ryw gymaint o effaith aflonyddol—yn enwedig mewn perthynas i'r syniad am fodolaeth Duw. Yn arwynebol, ymddengys fel pe yn gwneud y bodolaeth o Dduw yn ddiangenrhaid. Yn arwynebol ac ymddangosiadol, fodd bynag, y gwna hyn. Y mae pob damcaniaeth am ddechreuad pethau yn anmherffaith heb Dduw. Dyma feirniadaeth y

DR. ALFRED RUSSELL WALLACE,

cyd-ddarganfyddydd o ddeddf dadblygiad â Darwin:—"Y mae ymresymiadau y Proffeswr Schäfer o'r un natur ag eiddo Haeckel ac Agnosticiaid enwog ereill, ond ni lwydda i orchfygu'r anhawsderau mwy nag y gwnaethant hwythau." Dywed yn mhellach:—"Pe gallai'r fferyllydd gynychu bywyd, nid efe fyddai yn ei gynyrchu. Nid yw'r fferyllydd byth yn myned at yr achos terfynol. Nid yw yn ymwneud dim â'r Gallu sydd yn trefnu * * * Daliaf nas gellir egluro y rhan leiaf (y gronyn lleiaf) o fater difywyd heb gyfres o nerthoedd a awgrymant feddwl. * * * O ba le y daw y nerthoedd hyn?" Ie,

DYMA'R PWNC PWYSIG –

o ba le y daw y nerthoedd hyn? I'r gofyniad hwn nid oes ond un ateb posibl—fod Duw yn a thrwy a goruwch oll. I bob cynydd yn ngwybodaeth dyn am y cyfanfyd, i bob goleuni deflir ar y dirgelwch a'n amgylchyna, ein dyledswydd yw rhoi'r derbyniad gwresocaf. Ond nid yw pob darganfyddiad ond yn gwneud y cwbl yn fwy-fwy rhyfeddol, ac yn ei gwneud yn anmhosibl i osgoi'r casgliad—fod Duw.

GWYLIEDYDD.

Y PECHOD O GROESI'R FFIN.

[Dyfynwn yr erthygl ganlynol o'r *Drych* gan "Syllwr." Dealiwn fod y Parch. T. E. Nicholas, Glais, wedi bod yn pregethu yn Ngellionen a Threbanos, ac adgofia ni am gyhuddiad wnawd yn erbyn Iesu Grist. Gweler Luc vii. 39. - GOL.]:—

Mae yn mwriad y brawd talentog y Parch. T. E. Nicholas, i dalu ymweliad a'n gwlad fawr a chyfoethog ddiwedd yr haf hwn. Y peth sydd wedi peri i mi wneud ychydig nodiadau arno oedd y ffaith i mi weled yn y *Drych* nodiad am dano yn pregethu i Undodiaid, ac hefyd yn rhoddi cymundeb iddynt. Yr oedd y gwr ysgrifenodd i'r *Tyst* o'r lle y cododd y *Drych* yr ysgrif, yn eithaf teg ac yn hynod o foneddigaidd, ac yn ddiddadl yn teimlo fod Nicholas wedi troseddu yn fawr wrth groesi'r ffiniau, ac yn wir, y mae yn droseddwr hefyd yn ol y llythyren, eithr yn ol yspryd crefydd Crist nid yw.

Ni wn yn sicr a fu Mr. Nicholas yn pregethu i'r Undodiaid, ond mae y modd y gofynir yn awgrymu yn gryf iawn iddo fod; ac y mae mawrfrydigrwydd ei ddynoliaeth a'i yspryd Cristionogol yn tystio na cha pechadur fod, hyd yn oed mewn capel

Undodaidd, heb bregeth, os y gall ef bregethu iddynt. Os yw yr Undodiaid yn anuniongred, dyna y bobl sydd a mwyaf o eisiau pregethu iddynt, a'u cymwyso o'u cyfeiliorniadau, onide? Nid atal dynion i groesi'r ffiniau ddylid, ond eu cymell i wneud, er enill pawb i'r diriogaeth union.

A chaniatau i Nicholas bregethu i Undodwr, na feddylied neb fod hyny wedi lleihau ei barch, at berson ei Waredwr, na newid dim ar ei syniadau yn ei gylch. Os yw Nicholas wedi troseddu, troseddwr fu Iesu Grist yn ystod Ei holl oes bregethwrol, oblegid Undodiaid oedd yr Iuddewon i gyd y pryd hwnw, a dyna ydynt bron i gyd hyd y dydd heddyw. Bu Iesu yn pregethu yn galed, mewn capelau Undodaidd; yn cymuno ynddynt ac yn cydymffurfio yn allanol a'u holl ddefodau. A oedd yr Iesu yn troseddu wrth wneud hyny? Gwelwn wrth benill neu ddau o blith llawer, syniad Nicholas am y ffiniau:

"Mesurodd rhywrai gariad
Y Tad wrth gariad dyn;
Meddyliau gwyw offeiriaid briw
Roed wrtho ef yn nglyn.
Aeth cenedl ffol i gredu
Na chroesai cariad Duw
Dros ffiniau hen offeiriaid lleddf
I helpu dynol ryw.

Nis gwel offeiriad bydol
Ei frawd tu hwnt i'r ffin;
Ni chlyw y frawddeg fach am help
Yn crynu ar ei fin;
Meddyliodd cenedl gyfan
Mai Iuddew ydoedd Duw,
A'i ffordd o hyd yn cadw mhell
O lwybrau dynion byw.

Ond gwelwyd athraw unwaith,
Ac yntau'n Iuddew pur
Yn camu dros y ffiniau mall
I randir ing a chur.
Cadd gerydd gan offeiriad
Am groesi ei ffiniau hwy;
Cadd farw am gofleidio'r byd
A breichiau gobaith mwy."

Mae lle i gredu fod llawer yn byw yn myd bach yr Iuddew heddyw gan feddwl mai Annibynwr neu Fedyddiwr neu Fethodist yw Duw. Mae Duw yn fwy na chapel, yn fwy nag enwad, ac yn fwy na chenedl. Cadd Iesu farw am groesi'r ffiniau, ac am gofleidio'r byd fel maes ei weinidogaeth. Hyderaf mai nid eiddigedd sydd yn llechu yn nghalon "Arioch" tuag at Nicholas. Mae y ffaith iddo ofyn mewn newyddiadur yn hytrach nag i'r brawd yn bersonol, neu mewn llys, cynadledd neu ryw le sydd gan y cynulleidfaolwyr i godi materion o'r fath i sylw, yn awgrymu yn ddystaw fach nad oddiar yr amcanion goreu yr ysgrifenodd. A yw llwyddiant a gallu Nicholas yn dolurio ac yn peri i gasineb dyfu yn y galon? Os y darfu i'r Iuddew byr ei weledigaeth ymddwyn yn greulawn at y Gwaredwr am groesi y berth, dewch i ni sydd wedi cael gwell ac uwch goleuni i ymddwyn yn wahanol.

Mae tuedd yn yr hyn a ymddangosodd yn y *Drych* i lindagu poblogeiddrwydd y brawd, i ddreinio ei fywyd, ac i dduo ei ddyfodol. Clywais ddynion da yn awgrymu eisoes mai nid iawn yw i ddyn i bregethu yn mhob man. Nid yw y ffiniau yn uchel iawn yn y Talaethau, a diolch am hyny. Fy rheswm dros gredu nad ydynt yn uchel yw y ffaith i fwyafrif y bobl fyned drostynt i gyrchu gwr er mwyn ei anrhydeddu a'r sedd anrhydeddusaf yn y wlad, sef y gadair Arlywyddol. Undodwr proffesedig ydyw W. H. Taft, ac ni ddylai hyny dynu un fodfedd oddiwrth ei faintioli.

Ond yn ol at amcan a gwrthrych y sylwadau hyn: Mae Nicholas yn un o'r gweithwyr caletaf yn Nghymru, yn un a'i enaid yn fflam dros chwareu teg i'r gweithiwr. Nid myned i'r capel a wna i weddio dros y weddw sydd a'i chwpwrdd yn wag, ond cais hawlio yr hyn mae wedi gynyrchu iddi, drwy fyned ar ol y lleidr a'r Pharisead fu yn lladrata oddi arni. Ei holl amcan yw cael llawnder Duw i fyned at angen mawr y byd. Mae hwn yn ceisio rhoi dwr i'r sychedig, bara i'r newynog, ac yn talu ymweliadau a'r ceisiadau, ac yn ddiddadl fod cerddoriaeth ei delyn yn disgyn yn hyfryd ar glust ei Feistr mawr.

Meddai'r Iesu, "Bum yn ngharchar ac ymwelsoch a mi, yn newynog a rhoisoch i mi ddiod": ac meddant hwythau wrth yr Iesu, "Pa bryd, Arglwydd, y'th welsom mewn carchar, yn newynog ac mewn eisieu dwfr? Rhaid dy fod wedi camsynied, oblegid ni'th welsom Di erioed o'r blaen mor bell ag y gwyddom ni." "Eithaf gwir," ebe'r Iesu, "Ond yn gymaint a'ch bod wedi gwneyd daioni yn y byd, wedi ymddwyn yn deg a charedig at eich brodyr, wedi bod a'ch ysgwydd dan y groes, wedi bod yn tori cloion dallineb, wedi bod yn melysu dyfroedd Mara, wedi bod yn gwynu ffurfafen gymylog a du y nefoedd, ac wedi bod yn arwain trueiniaid o'r drain a'r anialwch i gyfeiriad y mynyddoedd a gosod eu traed ar y graig, i mi y gwnaethoch. Er na fuoch yn aelod eglwysig erioed, ac er na ddaethoch i adnabyddiaeth a mi, eto yr oedd calon eich bodolaeth yn curo mewn cydymdeimlad a'm hegwyddorion ac ewyllys fy Nhad; ac oherwydd hyny mae pyrth Paradwys o led y pen i chwi." Dyna gynwys geiriau melus yr Iesu wrth y dynion oedd a'u cyflawniadau yn dda yn y byd.

Nid gofyn pa mor aml y gweddiasoch, i ba enwad y perthynech, yn mha leoedd y cyflawnasoch eich gweithredoedd da, ac a fuoch mor gythgam o ddrwg a chymdeithasu gydag Undodiaid wna Iesu. Na, ni sydd yn gofyn y pethau uchod, nid Iesu. Dyma yr oll mae ef am gael yw bywyd a ffrwyth arno. "Yn gymaint a gwneuthur o honoch," nid credu o honoch, ond yr olaf sydd yn cael pwyslais y dyn o hyd.

DROS Y DON..

GAN SARNICOL.

Dydd Iau, Awst 13eg—9.15 Yr wyf yn ysgrifennu ar fwrdd ager-long fechan, ac nid gwaith hollol rwydd: mae'n ymrolio'n agos cynddrwg a'r modur sydd yn chwyrnellu o Landyssul i Geinewydd. Cychwynasom o Abertawe nos Fawrth, a cherddai'm cyfaill John a minnau i'r bwrdd fel dau hogyn pymtheg oed. Cydymaith rhagorol yw John; mae ei wyneb fel heulwen haf yn codi dros Byllau'r Bryn, ac y mae awr o'i gymdeithas cystal ag wythnos o fôr.

Codais bore ddoe a'm hysprydoedd yn uchel, ac euthum at y ford i gael brecwast. Eisteddais i lawr yn galonog wrth y bwrdd, a daeth dysgleidiau cryfion gwŷr y môr o'm blaen. Ond dyma'r ford, a'r dysglau a'r ystafell yn dechreu symud yn araf yn ol a blaen, a minnau gyda hwynt. Mae arogl olew a phaent hefyd yn taro ar fy ffroenau. Rhaid cael llond pen o awyr ffres, a rhedaf yn frysiog i'r dec; ac nid oes fawr hwyl ar ddim am y pedair-awr-ar-hugain nesaf. Yn wir, mae rhai o'r oriau yn druenus dros ben, a melltithiaf y môr, a'r llong, a'r capten, a John, a mi fy hunan; a phenderfynaf fyn'd adref gyda'r trên, hyd y gallaf.

Ond erbyn heddyw mae pethau'n well, a'r hwyl yn uchel, ac yr wyf yn prysur anghofio selni'r môr. Yn wir, nid ellir mwynhau tawelwch ond wedi storom; a theimlaf yn hapus iawn heddyw.

Mae'n fore tawel, a haen deneu o

nydden dros y ffurfafen, ac yn hongian ar y gorwel; ond dywed y morwyr wrthym ei bod i glirio cyn hanner dydd. Yr ydym yn bresenol yn ageru heibio glannau Llydaw, ac heb fod ym mhell o gyfer Concarneau, medd y *second mate*; ac y mae ef yn gwybod y ffordd yn lled dda erbyn hyn, gan ei fod wedi ei theithio rai ugeiniau o weithiau o'r blaen.

Yr ydym yn bwriadu galw yn yr Yspaen cyn dod yn ol, ac yr wyf yn difyrru fy hun yn ceisio dysgu iaith y wlad, drwy gymhorth llyfryn swllt a'r morwyr. Mae amryw o'r dwylaw yn medru'r iaith yn dda, gan mai *Basques* ydynt. Yn anffodus, mynnant ddweyd enwau pob peth wrthyf yn eu hiaith eu hunain, yn ogystal a'r Yspaeneg, ac y mae hynny yn aml yn fy n'rysu. Yn iaith y *Basques* dyma fel y maent yn cyfrif—bat, bi, iru, lau, bôst, sei, &c., un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, &c. Gwelir ar unwaith mor anhebyg yw'r iaith i iethoedd ereill Ewrob.

11.25 Mae'r hin yn gwresogi. Draw yn aneglur ar y gorwel gwelwn L'Ile de Croix (Ynys y Groes) ar forlan Prydain Fechan, neu Llydaw fel y gelwir y wlad yn gyffredin.

Mwynheais ginio yn rhagorol heddyw. Yn y prynhawn cododd awel ffres. Erbyn hyn mae'r wybren yn clirio hefyd, yn ol rhag-fynegiad y morwyr; ac y mae'r llong yn ymrolio yn lled ddrwg, ond mae'n hyfryd iawn ar y bont.

Am 6.30, gwelaf oleudy gwyn yn adlewyrchu goleu'r haul ar y terfyngylch, ac y mae creigiau glannau Ffrainc hefyd yn taflu'n ol ei belydrau o'r pellder draw. Erbyn hyn, mae'r môr o las dwfn, prydferth iawn; mae'r wybren yn berffaith glir; a chymylau gwynion, ysgeifn, yn hongian ar y gorwel.

Tua naw o'r gloch, gwelaf lawer iawn o 'ser yn rhedeg,' neu 'ser disperod,' yn ol Goronwy Owen. Mae'r awel yn falmaidd iawn, ac y mae eistedd ar y bont yn yr awyr ffres yn codi chwant swper arnaf.

Am un-ar-ddeg, daeth llong-lywydd Ffrengig i'r bwrdd, gwr digon siaradus, fel y gweddill o'i gyd-genedl; ond nid oedd ganddo ond ychydig Saesneg, a hwnnw'r rhan fwyaf o hono yn dermau morwrol oeddynt o'r braidd yn anealladwy i mi. Yr oedd yn glir a hyfryd pan ddaeth i'r bwrdd, ond yn hwyrach, daeth cuwch fygythiol i'r ffurfafen, a phrophwydai'r hen long-lywydd amser drwg i ddod. '*Il fera mauvais tempo*,' meddai. Gadewais y *second mate* ac yntau ar y bont, i'r nôs, a'r môr, a'r gwynt, ac euthum i chwilio'm cell fechan, gul, yng nghrombil y llong.

Dydd Gwener, 5 yn y bore. Yr wyf wedi codi'n foreu er gweled y llong yn ageru i fyny'r afon Charente. Mae'r tir o gylch yn wastad, a rhyfedd yw myned drwy feusydd, a phasio coed poplys, a'u dail yn crynu yn chwaon y boreuddydd, a hynny mewn llong! Mae golwg estronol ar y tai, a'u muriau gwyngalch fel marmor, a'u pennau cochion yn edrych yn brydferth yng nghanol gwyrddlesni'r haf. Mae'r gorwel yn goch a gwridog yn nghyfeiriad codiad haul, ond tywyll a dwrllyd yw'r gorllewin. Wrth ddynesu at bentref neu borthladd bychan Charente mae'r awyr yn myned yn fwy-fwy clôs, mae'r ffurfafen yn tywyllu, ac yn fuan iawn disgyn y gwlaw yn genllif ar y wlad.

Wedi boreubryd, aeth John a minnau i'r lan, yn falch i gael dianc o gaethiwed y llong, ac yn teimlo'n ddiogel iawn eto i gael gosod ein traed ar dir caled. Mae golwg ddyddorol ar y pentref, a'i agwedd yn hen a dieithr. Tŷf gwinwydd o gylch y drysau, ac y mae afalau ac eirin yn hongian dros furiau'r gerddi. Nis gallaf haeru fod y lle'n enwog am ei lendid, ond edrycha'r bobl yn hapus, ac y maent yn credu'n ddiamheu mai Charente yw canolbwynt y greadigaeth. Mae pobl Llandyssul yn credu'r un peth am eu pentref hwythau. Gwisg y gwŷr bob un flowsen las, a chapan fel pancwsen, a dwy glocsen bren. Aeth y tywydd mor ddrwg fel y gorfu i John a minnau ddychwelyd ar ffrwst i ddiogelwch y

llong, wedi talu ymweliad a'r barbwr, prynu cardiau darluniadol, a chael potel o *vin ordinaire* sur. Wrth gwrs, mae gwin yn rhad iawn yma, rhyw chwecheiniog y peint, ac i bob pwrpas ymarferol, yn anfeddwol. Yn Ffrainc, gwlad y gwinwydd, anaml y cwrddir a dyn meddw.

Dydd Sadwrn. Diwrnod garw iawn. Nid oes dim gwaith yn myn'd yn y blaen heddyw: mae'n ddiwrnod gwyl gyffredinol.

Dydd Sul. Diwrnod mwll a diog. Yn y bore aeth John a minnau i'r eglwys, adeilad hen ac urddasol, ac wrth gwrs, gwasanaeth Pabyddol gynhelid yno. Mae rhywbeth yn miwsig a defodaeth Eglwys Rhufain sy'n apelio at ddychymyg y Cymro wedi'r oll; ac onid yw nodau'r *organ* yn crwydro rhwng y pileri tal ac oesol, yn murmur am dragwyddoldeb wrtho yn fwy na dim ond tonnau'r môr sy'n torri fyth ar lan ei wlad enedigol? Ychydig o'r gwŷr sy'n mynychu lle o addoliad yma; credant fod myn'd i'r eglwys yn burion peth i'r gwragedd a'r plant; ond mae ganddynt hwy rywbeth amgenach i'w wneyd.

Nos Sul, gwelsom gwmni o chwareuwyr teithiol yn actio mewn congl o'r pentref, yn yr awyr agored. Mae llawer o'r *strolling players* yma ar hyd Ffrainc; ac wrth gwrs maent mewn bri mawr yn y pentrefi. Maent yn chwareu yn rhyfedd o fedrus, ond tarawant yn greulon yn erbyn chwaeth a chydwybod Cymro.

Dydd Llun. Mae'n fwy disglaer a ffres heddyw, ond eto tywydd cysglyd ydyw. Aethum am dro i'r wlad, a chefais olygfa brydferth iawn. Yr oedd gan bob ty ardd helaeth, a phys a pha, ac afalau a gwinwydd ddigon. Cwrddais ag amryw blant ysgol, ac yr oedd gan y rhan fwyaf o honynt rai geiriau o Saesneg. Mae'n amlwg fod iaith y Sais yn cael gryn sylw yn ysgolion y wlad.

Cyfarfum a hogyn ar y ffordd yn gyru gwyddau; a threiais gael gwybod ganddo y gair Ffrengig am ŵydd, yr hwn air a anghofiaswn. Bum yn hir iawn cyn ei gael i ddeall. Mae'n amlwg fy mod wedi peri peth ofn iddo; ac yr oedd yntau yn synu am gyfarfod dyn cyflawn dwf nas gwyddai beth oedd gŵydd! O'r diwedd wedi i iaith fethu, gwnaeth dwy geiniog y gwaith, a chefais allan mai *une oie* oedd gŵydd yn Ffrangaeg. Wedi'r oll nid oedd y wers wedi costio cymaint; yn ol dwy geiniog y gair cawswn wybodaeth bur dda o'r iaith am ganpunt; ac yn sicr buasai deall Ffrangaeg yn drwyadl yn werth cymaint a hyny o arian i mi!

Treuliwyd yr hwyr mewn *café* bychan, y capten a'm cyfaill a minau. Yr oedd yr hwyr yn serenog hyfryd; cyfnewidiad i'w groesawu.

Dydd Mawrth. Bore trwm iawn. Aethum i'r llythyrdy i ddanfon ysgrif ymaith i'r YMOFYNYDD. Costiodd 1 *franc* 2½ *centimes*, h.y., ychydig dros swllt: mwy na gwerth yr erthygl, mi ofnaf! Cefais beth trafferth i gyfnewid arian Prydain yn y Post Office, yn enwedig gan fod fy Ffrancaeg yn fratiog, a Saesneg y swyddogion yn waeth na hyny. Yr oedd ganddynt restr o frawddegau Saesneg yn gyfleus ar y wàl y tu cefn i'r *counter*, a cheisient eu hyrddio ataf gan eu swnio mewn modd chwerthinllyd o estronaidd. Dichon fod fy Ffrancaeg inau yn swnio yr un mor ddigrif iddynt hwy. Ac y mae hyn yn fy adgofio am Pewythr Rhys pan aeth gyntaf i'r Rhondda o Sir Aberteifi. "Hen Gardi jain wyt ti," meddai rhyw hogyn byr o golier wrtho. "Pam wyt ti'n gweyd hyny bachan?" gofynai Rhys wrtho. "Wyt ti'n whilia mor òd bachan uffach," meddai'r gwr bach wrtho. "Hen Gardi wyt ti hefyd," meddai Rhys, "'rwyn dy glywed dithau'n whilia'n òd ar felldith."

Yn yr hwyr aethum am dro i'r wlad; yr oedd y cloddiau'n brydferth iawn, ac arogl y llysiau yn hyfryd ar ol y g'law. Tyfai blodau gwinwydd (*honeysuckle*) ar ochr y ffordd, a gofynais i wladwr Cymreigaidd iawn yr olwg arno beth oedd yr enw Ffrangaeg am y blodau. A chefais mai *chèvre fenilles* oeddynt—dail y carw, ac nid anghofiais fyth y gair.

Dydd Mercher. Cychwynasom allan o'r porthladd, wedi cryn helynt am 11 y bore. Yr oedd y tywydd yn hyfryd, ond fod gwynt main yn chwythu o'r gogledd-orllewin, gan addo taith weddol sigledig i ni. Edrychai Rochefort yn hardd yn y pellder, gyda thai gwynion fel yr eira yn nghanol glesni'r coed, ac ambell i dŵr eglwys yn trywanu'r awyr las bwchben. Mae llond pen o awyr hallt y môr yn adfywiol iawn wedi'r tywydd mwll a llaith a gawsom yn Charente. Mae'm dyddiadur am yr haner diwrnod nesaf yn gynwysedig mewn brawddeg sydd gydnabyddus i bawb ar sydd wedi cymeryd taith fèr ar y môr, ac heb fod yn gynefin ag ystranciau Dafydd Jones—"*Mal de mer.*"

(*Pw barhau.*)

DWY DDAMEG.

Y DYDD.

"Dewch gyda mi," ebe'r Dydd, "a gadewch i ni gael gwneud rhywbeth gyda'n gilydd!

"I'ethau prydferth, pethau da!" ebe'r Dydd. "Mae eich cyfaill yn glaf, a rhoddai ymweliad oddiamgylch bleser anhraethol iddo. Hefyd, y mae amser hir oddiar y gwelsoch eich chwaer, yr hon sydd yn dlawd ac yn drist; ac ar y ffordd gallech gael rhoddion i'w rhoddi i'r plant, gan nad oes ganddynt yr un tad i brynu rhoddion iddynt. A beth pe byddem yn rhoi tro heibio i'r allt, y tu allan i'r dref, lle'r arferech chwi a'ch brawd chwareu pan yn blant! Pa faint o amser sydd oddiar y gwelsoch yr allt, neu y gwelsoch eich brawd? Clywais ei fod wedi dod yn ol a'i fod wedi gwneud ei feddwl i fyny i fyw bywyd newydd. Gallem fyned ato a'i gymeryd gerfydd ei law a chyd deithio ag ef am dipyn. Yna gallem——"

"Beth yw'r holl *nonsense* sydd wedi cymeryd meddiant o honoch?" ebe'r dyn. "Pethau yw y rhai hyn yn burion i'w gwneud, ond nid yn awr, nid gyda chwi. Dysgwyliaf wneud mil o bunau gyda'ch help chwi. Eisteddwch gyda mi wrth y bwrdd, yn lle siarad gwagedd."

Eisteddasant i lawr gyda'u gilydd, ac aeth yr oriau heibio.

Bob yn dipyn daeth yn bryd i'r Dydd fyn'd.

"Gwd-bei," ebe'r Dydd.

"Oh, gwd-bei," ebe'r dyn. "Paham yr edrychwch arnaf mor drist? Bwriadaf wneud yr holl bethau hyny y soniasom am danynt. Bwriadaf yn sicr eu gwneud gydag un o'ch chwiorydd."

"Nid oes genyf fi'r un chwaer arall!" ebe'r Dydd.

Ac wrth basio allan drwy'r drws, pwy gwrddai ond y Nos yn dyfod i mewn!

Allan o'r "Golden Windows"
gan L.E.R.

Y DYN CYHOEDDUS.

Un tro yr oedd dyn cyhoeddus yn brysio at ei fusnes; ac fel yr oedd yn rhedeg, fe lithrodd ar damaid o ia, a thorodd ei glun. Fe'i cludwyd adref,

ac am hir amser gorweddai ar ei wely, a'i gorff mewn poen, a'i feddwl mewn blinder.

"Beth ddaw o bob peth"? ebe fe. Erbyn hyn mi ddylaswn fod yn y pwyllgor, lle nas gallant wneud dim hebof fi. Yn y prydnawn y mae cyfarfod y *Directors*, lle'r oeddwn i fod yn gadeirydd, a heno, yr oeddwn i draddodi darlith ar bwnc pwysig. Golyga hyn alanas i'r dref, ac feallai i'r holl wlad—mae'n ofnadwy!"

Ar hyny, dyna'r angel sy'n ymwneud a phethau, yn dyfod i fewn. "Sut yr ydych yn teimlo?" ebe'r angel. "O, yr wyf mewn cyflwr tost," ebe'r dyn. "Llithrais ar damaid o ia boreu heddyw a thorais fy nghlun." "Do," ebe'r angel, "mi'ch gwelais yn cwympo." "Ond," ebe'r dyn, "nid y poen, yr hwn sydd yn ddigon drwg (meddyliai nad oedd yr angel yn edrych arno gyda digon o gydymdeimlad) yw'r peth pwysicaf. Mi ddylaswn, erbyn hyn, fod yn y pwyllgor, canys ni allant wneud dim hebof fi. Yn y prydnawn y mae cyfarfod y *Directors*, lle'r oeddwn i gymeryd y gadair, ac heno yr oeddwn i ddarlithio. Y mae hyn oll yn golygu galanastra i'r dref, ac o bosibl, i'r holl wlad," ac ocheneidiodd yn uchel.

"Ah, wel," ebe'r angel, "pe tawn i'n eich lle chwi ni wnawn i flino mwy na mwy yn nghylch yr holl bethau hyn." "Ddim blino!" ebe'r dyn cyhoeddus mewn syndod. "Na wnawn i," ebe'r angel, "a dweyd y gwir, fi ddododd y tamaid ia yno fy hunan. Yr oedd arnaf eisiau cael gwared arnoch."

"Cael gwared," ebe'r dyn cyhoeddus, ac y mae'n tynu ei anadl yn lluddedig.

"Ie," ebe'r angel, "nid oedd arnaf eich eisiau ar y pwyllgor. Yr oedd yno ddyn newydd yn barod i ddyfod yn mlaen, sydd yn gwybod llawer mwy nag a wyddoch chwi, a phe byddech chwi yno byddai yn rhy wylaidd i siarad. Drachefn, y mae'r *Directors* yn bwriadu cymeryd cam newydd ar y pwnc pwysig y soniasoch am dano, a phe buasech chwi yno ni fotient yn iawn. A gyda golwg ar y ddarlith, gwnelai fwy o ddrwg nag o dda; ond pan elo'r cyfwng presenol heibio gallwch draddodi eich darlith heb wneud llawer o niwed. Felly, chwi welwch!"

"Y nefoedd fawr!" ebe'r dyn cyhoeddus, "a ydwyf yn effro, ynte breuddwydio wyf?"

"Fwy neu lai," ebe'r angel, "dyma'r hyn y gelwir Bywyd arno."

"Ond—ond—ond" ebe'r dyn, "y mae hyn yn ofnadwy! wyddoch chwi ddim yn nghylch busnes."

"F'enaid anwyl," ebe'r angel, "Beth dybiwch chwi wyf fi?" ac aeth i ffwrdd, a dywedodd wrth y *nurse* am roddi digon o foddion iddo i'w lonyddu.—L.E.R.

PRIODAS.

MEDI 10, yn nghapel Brondeifi, gan y Parch. R. C. Jones, unwyd Mr. James Evans, Temple Buildings, Llanbedr, mewn priodas a Miss Jane Williams, Tynewydd, ger Llanbedr.

MARWGOFION.

MEHEFIN 26, yn 80 mlwydd oed, Mrs. Mary Hughes, Brynteg, Dihewyd. Yr oedd yr ymadawedig yn fam i Mr. Evan Hughes, Dihewyd. Yr oedd yn mwynhau iechyd gweddol hyd ychydig ddyddiau cyn ei marwolaeth pryd y cymerwyd hi yn glaf. Menyw dawel a didrwst ydoedd, ac yn byw mewn heddwch a phawb. Yr oedd wedi ei donio a gallu meddyliol cryf, ac yr oedd yn gallu meddwl drosti ei hun. Yr oedd yn aelod o eglwys Ciliau, ond nid oedd wedi bod yn alluog i ddod i'r gwasanaeth er's rhai blynyddau. Claddwyd yn mynwent Eglwys Dihewyd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, ac yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. Stephen Jones, Ficer Dihewyd. Gadawodd dri mab a thair merch, ac amryw o wyrion, mewn galar ar ei hol.

GORPHENAF 3, Daniel Williams, Eilliwr, Drovers Road, Llanbedr, yn 57 mlwydd oed. Mab ydoedd i'r diweddar athrylithgar fardd Daniel Williams (Daniel Gloff), Drefach, Llanwnen. Nid oedd ysgrifenydd yr ychydig llinellau coffadwriaethol hyn yn gyfarwydd iawn a'r ymadawedig, ond tystiolaeth y rhai oedd yn ei adnabod oreu yw nid yn unig ei fod yn ddyn o synwyr cyffredin cryf tuhwnt i'r cyffredin ond ei fod bob amser yn awyddus am wneuthur i eraill fel y carai efe i eraill i wneuthur iddo yntau. Yr oedd yn dderbyniwr cyson o'r YMOFYNYDD a darllenai ef yn fanwl. Gadawodd weddw a phlant mewn galar ar ei ol. Claddwyd ei weddillion yn mynwent Eglwys y Plwyf a'r offeiriad yn gwasanaethu. Drwg genym na buasai gair am ei farwolaeth wedi ymddangos yn yr YMOFYNYDD yn gynt.

AWST 23, yn 76 mlwydd oed, Mrs. Margaret Howells, Ddolboidy, Llanfihangel Ystrad. Bu yr ymadawedig yn gwanychu am fisoedd, ac yr oedd yn amlwg ei bod yn neshau yn gyflym at ei diwedd. Treuliodd fywyd llafurus ; arferodd fod yn llafurus pan yn ieuanc, a bu felly hyd y parodd ei nherth. Meddienid hi gan deimlad da tuag at bawb, ac nid oedd yn mynwesu casineb tuag at neb. Yr oedd yn gymydoges ardderchog ; yr oedd bob amser yn heddychol, ac yn barod i gynorthwyo yn ol ei gallu pan y byddai angen. Yr oedd hyn wedi enill iddi barch mawr gan bawb o'i chydnabod, a chafwyd prawf o hyny ar ddydd ei hangladd. Yr oedd yn un o aelodau mwyaf ffyddlawn o eglwys Rhydygwin. Nid ydym yn meddwl iddi erioed fod yn absenol o'r gwasanaeth crefyddol heb fod rhyw rwystr anorfod ar ei ffordd. Gadawodd un ferch, yr hon oedd yn byw gyda hi, ac a fu yn gweini arni yn ei chystudd, yn nghyd ag un chwaer a dau frawd, ac amryw o berthynasau eraill, mewn galar ar ei hol. Nodded y nef fyddo dros ei hunig ferch yn ei galar. Claddwyd y Mawrth canlynol yn mynwent eglwys Llanfihangel Ystrad. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan gan y Parch. L. Williams, wrth y drws gan y Parch. B. Carolan Davies, Tynygwndwn, ac yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. R. E. Davies, Ficer y Plwyf.

AWST 26, Mrs. Mary Davies, anwyl briod Mr. David Davies, Neuaddfach, Pencarreg, yn 57 mlwydd oed. Yr oedd i'r ymadawedig air da gan bawb o'i chydnabod ac hefyd ni a gredwn gan y gwirionedd ei hun. Yr oedd yn fam dda i'w phlant ac yn briod ffyddlon a darbodus i'w gwr, ac y mae ei phriod a'i dwy ferch mewn galar dwys ar ei hol. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. Evan Evans, Soar, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. R. C. Jones, gweinidog y lle.

MEDI 8, yn 80 oed, yn nhy ei ferch a'i fab-yn-nghyfraith (Gwylfa, Llan-

ybyther), James Davies, Pwllgravel, Capel Cynon, gynt o Brebast, Talgarreg, gan adael pedwar o blant a pherthynasau ereill i wel'd ei eisiau. Cafodd ei ddilyn gan ddolur poenus am y pum mlynedd diweddaf o'i fywyd a chynyddodd y poenau'n ddirfawr yn ei fisoedd olaf. Goddefodd yntau'r oll yn amyneddgar. Claddwyd y Mercher canlynol yn Capelyfadfa, a gwasanaethwyd gan y Parchn. D. James, Rhydybont, ac E. O. Jenkins.

MANION AC HANESION.

COLEG CAERFYRDDIN.—Yn yr arholiad flynyddol gynhaliwyd yn ddiweddar y mae yn llawenydd genym weled fod Mri. D. Cellan Evans a Ben Davies wedi pasio yn llwyddianus i gael derbyniad i'r Coleg uchod. Y mae Mr. Evans hefyd wedi pasio y *Matriculation* Prifysgol Cymru. Dymunem longyfarch y ddau yn galonog iawn ar eu llwyddiant, ac hyderwn nad ydyw ond ernes o lwyddiant mwy eto sydd yn eu haros.

ALLTYPLACA.—Awst yr 20fed, cafodd deiliaid Ysgol Sul Alltyplaca, bleserdaith gysurus iawn i'r Ceinewydd mewn cerbydau. Talwyd treuliau cludiad y plant gan Mr. Joseph Evans, Fferyllydd, Llundain. Mae'r plant, a phawb ydynt yn teimlo dyddordeb yn yr ysgol, yn wir ddiolchgar iddo am ei garedigrwydd, ac yn dymuno iddo oes hir a llwyddianus.

RHYDYGWIN.—Awst 15, aeth aelodau Ysgol Sul y lle, a bron bawb ag sydd yn perthyn i'r eglwys ar bleser-daith i Aberystwyth. Yr oedd yn gwlawio yn drwm pan yn cychwyn yn y boreu, ond yn ffodus fe beidiodd a gwlawio wedi i ni gyrhaedd pen y daith. Hwn oedd y tro cyntaf i'r oll bron o'r plant i fod yn Aberystwyth, ac i blant y wlad yr oedd yno amryw o ryfeddodau. Mwynhasant eu hunain yn rhagorol, a chredwn hefyd fod pawb wedi gwneud felly.

CAPELYGROES.—Y mae Miss Margaret Ellen Evans, Felinban, wedi pasio y *Senior Examination* mewn cysylltiad a'r *Central Welsh Board.* Uwch, uwch, yr eled nes cyrhaed y nod yw dymuniad ei chyfeillion.

CRIBYN.—Y mae Mr, Evan Jones, Frongelyn, wedi pasio'r arholiad am dderbyniad fel swyddog o'r *London & Provincial Bank*; a Mr. David Davies, Three Horse Shoe, wedi pasio *Senior Examination* y *Central Welsh Board.* Llongyfarchwn y ddau ar eu llwyddiant.

CASGLIAD BLYNYDDOL YR YSGOLION SUL.—Dymunwn gydnabod yn ddiolchgar y casgliadau canlynol—Trebanos, 16s. 9c.; Pantdefaid, 16s. 6c.; Llandyssul, 15s. 6c.; Rhydygwin, 10s. 9½c.; Capelybryn, 8s. 9c.; Llwynrhydowen, 8s.: Capelygroes, 7s. 9c.; Brondeifi, 6s. 10½c.; Cribyn, 6s.; Ciliau, 5s. 6c.; Alltyplacca, 5s.; Capelyfadfa, 5s.; Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, 5s.; Caeronen, 5s.

PARCHA HENAINT.—Plyg dy ben yn isel, fachgen, parcha'r henwr, unwaith yn ieuanc fel ti dy hunan. Aml droion bywyd wnaeth ei wyneb llon yn wyneb rhychiog fel y mae yn bresenol ger dy fron. Unwaith, cerddai yn wr ysgafndroed drwy olygfeydd swynol y byd o bleser, yn ddelfryd o brydferthwch. Bellach, y mae llaw drom amser, yr hwn a

wywodd flodeu ddoe wedi crymu'r gwr cadarngryf, ac wedi arafu ei symudiadau. Unwaith, yn dy ochrau di yr oedd y mil meddyliau basiant heddyw drwy dy ymenydd di yn eiddo iddo ef, ac fel tithau, awyddai gyflawni'r gweithredoedd gyfrifid yn deilwng o gongl yn nheml clod ac anrhydedd ; ond y mae'r dyddiau hyny wedi myned heibio—yr hen wr wedi byw ei freuddwydion hyd y terfyn. Nid yw ei lygad mwy yn tanio pan glyw adrodd am orchestion beiddgar, tra mae'r llaw yn cylymu'n dynach wrth y ffon. Plyg dy ben yn isel, fachgen, megys y mynet gael dy barchu yn nyddiau dy henaint dy hunan.

DRWG oedd genym ddarllen hanes marwolaeth Mr. John Harrison, llywydd diweddar y B. & F. Fe gofia rhai o'n darllenwyr ei weled yn y cwrdd mawr yn Mhantdefaid, Mawrth 1909. Masnachwr llongau oedd yr ymadawedig, a dywedir iddo wneud llawer i ddadblygu masnach a'r Cyfandir. Am hyny y creodd Ffrainc ef yn—Chevalier of the Legion of Honour. Deilliai Mr. Harrison o deuluoedd enwog o'r ddau tu. Ei daid oedd y Parch. Dr. Harrison, Chowbent, ac wedi hyny, Brixton. Bu ei hen-daid, Ralph Harrison, yn weinidog yn Manchester am flynyddau. Olrheiniai Ralph ei achau yn ol at Cuthbert a Joseph Harrison, dau o'r dwy fil drowyd allan o'u bywioliaethau yn 1662. Ganwyd Mr. J. Harrison, Gorphenaf 9, 1841, a chymerodd ei farwolaeth le Mehefin 27, 1912.

MEWN CYFARFOD O FYFYRWYR BEIBLAIDD a gynhaliwyd yn y Tabernacl, Lancaster Gate, Llundain, yn eu Sasiwn ddiweddaf pasiwyd y penderfyniad hwn : Nid ydym yn cael fod y Beibl yn dysgu yr athrawiaeth o "dân uffern" llythyrenol, neu le o dân a brwmstan i gospi pechaduriaid ; ond fod hanes ffurfiad y credoau yn y Canol Oesoedd, neu'r Oesoedd Tywyll, yn amlygu'r ffaith fod cosp "tân uffern" wedi cael ei ychwanegu, pa un ai yn ddoeth ynte yn annoeth, at addysg Iesu Grist a'i ddeuddeg apostol, ac wedi achosi llawer o esponiadau gwrthun ar ddamegion yr Arglwydd Iesu Grist."

Nid yw y ffaith fod y diffoddur wedi ei osod ar dân a brwmstan uffern dychymygol y pwlpudau, wedi

DIDDYMU YR UFFERN SYLWEDDOL

sydd yn gynwysedig yn y geiriau—Pa beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe. Nid mor hawdd y diffoddir uffern cydwybod euog. Er i ddyn groesi Mor y Werydd ni all adael ei gydwybod ar ol ; a phan, yn y diwedd y bydd iddo groesi'r cyfwng rhwng dau fyd, bydd cydwybod yno hefyd wyneb yn wyneb ag ef.

PWNC gafodd gryn lawer o sylw rai blynyddau yn ol oedd—

BETH SYDD WEDI DOD O UFFERN?

Llanwai le mawr un amser yn y Pwlpud ac mewn Llenyddiaeth ; ond yn awr ni chlywir son am dano nemor byth. Uffern, oedd gynt mor gyfleus i anfon brawd neu chwaer iddo, os na fyddai yn perthyn i'n sect ni! Ai posibl fod Uffern wedi diffodd? Nid yw ryfedd fod ambell i bregethwr wedi colli ei destun, ac ar yr un pryd wedi colli ei ddylanwad. Cofiwn ddarllen am bregethwr unwaith yn desgrifio fel yr oedd y ddynoliaeth yn fintai fawr drwy'r oesau yn symud yn mlaen ac yn syrthio i'r lle poeth, rhyw dri o honynt bob eiliad, a hyny bob dydd, bob wythnos, bob blwyddyn *am byth!* A'r bobl yn y seddau yn ysgrechain ac yn wylo, a'r menywod yn llewygu. Diolch fyth fod gobaith gwawr gwell wedi tori, a syniadau mwy teilwng, a mwy cyson a charitor y Duw a bregethwyd gan Iesu Grist.

Odid na wyr y darllenydd cyfarwydd am Gehenna, neu

UFFERN Y TESTAMENT NEWYDD,

"lle nad yw y pryf yn marw na'r tân yn diffodd," mai enw oedd ar y man y tu allan i Jerusalem, lle gynt y llosgid budreddi'r ddinas ; ond a wyr

efe fod y tân bellach wedi diffodd a'r pryf wedi marw er ys canrifoedd, ac yno heddyw mae'r Stesion ar y reilwe sydd yn rhedeg o Jaffa i Jerusalem!

DIOLCH AM Y CYNAUAF. — Ymddengys i mi fod ambell i offeiriad yn coleddu syniad hynod gul am berthynas ei Grewr a'r byd yr ydym yn byw arno. Fe ddywed un mai "lleol hollol" yw'r cwrdd diolch am y cynauaf; na ddylid dysgwyl i bobl ei blwyf ef roi diolch am gynauaf yn Timbuctoo. Gallwn feddwl fod y bonwr yn anwybyddu'r ffaith fod bwrdd boreubryd y Ficerdy yn awgrymu perthynas bur agos a phellderau byd. Er engraifft, o ba le y daw ei de, ei goffi, ei sugr, ei gyrens, ei wenith, &c.? Os yw diolch y creadur i gael ei gadw yn ol pan fo'r cynauaf yn fethiant lleol, awgrymir wrth hyny fod doethineb a rhaglunaeth Duw i gael ei mesur, nid wrth y bydysawd mawr anfeidrol a greir ac a gynelir ganddo, ond wrth blwyf bychan y Parch. W Blunt, Bridgham yn Norfolk. Mae'n amlwg y tybia y gwr parchedig fod y Creawdwr wedi ymddwyn yn angharedig tuag ato.

YN OL EI ARFER.—Darllenwn fod Iesu yn rheolaidd yn mynychu'r addoliad cyhoeddus yn y synagog. Mae ei esiampl yn deilwng o efelychiad ffyddlon. Mae yn arferiad diogel, ac yn un nas gellir ei esgeuluso heb berygl mawr. Os am feddianu dysg, gwyddom ei bod yn angenrheidiol i fyned i'r ysgol yn rheolaidd. Os am wneud bywioliaeth, gwyddom ei bod yn angenrheidiol i fyned at ein gorchwyl gwaith bob dydd yn rheolaidd. Os esgeuluswn hyn, ni a syrthiwn yn mhell is law ein goreu, a bydd perygl i'n esiampl gadw eraill, hen ac ieuainc rhag sylweddoli eu gwir fendigedigrwydd. Dywedir am Archesgob Leighton ei fod mor ffyddlon i'w gyd-gynulliad fel nad oedd dim a'i cadwai gartref. Un tro, pan yn glaf iawn, a'r tywydd yn ystormus, ceisiwyd ei berswadio i aros gartref, a'i ateb oedd, Pe bae'r tywydd yn deg, mi aroswn gartref, ond rhaid i mi fyn'd rhag i mi drwy esiampl ddrwg beri i eraill, ar esgusodion gwael, aros heb fyn'd i'r addoliad cyhoeddus.

Yr wyf yn darllen

PREGETHAU CARDINAL NEWMAN

o'r Eglwys Babaidd, ac eiddo'r Archesgob Tait o Eglwys Lloegr, ac eiddo James Martineau o'r Eglwys Undodaidd; ac y mae fy marn i yn fy arwain i roddi'r flaenoriaeth i Martineau. Yr wyf yn dysgu llawer oddiwrth y ddau eraill, ond nid ydynt yn enill fy ngwarogaeth. Yr wyf yn cyferbynu dau ddyn, y Pab Pio Nono ac Edward Everett Hale, ond yn fy marn i y mae'r olaf yn rhagori yn fawr. Gwneir camsyniadau gan bob un o honynt, ond daw'r corff mwyaf o wirionedd oddiwrth gynrychiolydd y corff bychan o eglwysi rhyddion, yn hytrach nag oddiwrth gynrychiolydd yr eglwys fwyaf yn y byd Cristnogol.

Y PARCH. SAMUEL GRIFFITHS, OLDBURY.—Ychydig flynyddau yn ol fe gyhoeddwyd dau lyfr yn ymdrin a hanes myfyrwyr Coleg Caerfyrddin. Cofnodir llawer o ffeithiau dyddorol am rai o'r myfyrwyr, a'r nesaf peth i ddim am eraill. Yr oedd hyny, wrth gwrs, am nad oedd yr ysgrifenwyr yn hollwybodol. Fe ddichon y bydd yr ychydig sylwadau a ganlyn am y bonwr uchod o ddyddordeb i rai o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD. Yr oedd yn fab i Mr. Griffiths, Cwm-mawr, ger Caerfyrddin; yn nai i'r Parch. Samuel Griffiths, Wolverhampton; a'i dad a'i ewythr yn blant i'r Parch. Evan Griffiths, Capel Seion. Bu farw'r ewythr Ionawr, 1804 (y flwyddyn yr aeth y nai i Goleg Caerfyrddin) wedi bod yn weinidog Wolverhampton o 1782 hyd ei farwolaeth. Yr oedd Samuel Griffiths, y nai, yn weinidog y capel Undodaidd yn Oldbury yn 1811—12, ond pa faint cyn 1811 yr oedd yno y mae'n anhawdd penderfynu. Bedyddiodd 21 o blant yn 1811, a 3 yn 1812. Olynwyd ef yn y weinidogaeth yn Oldbury gan nai i'r Parch. David Davis, Castell Hywel,

sef y Parch. Timothy Davis, yr hwn a weinidogaethodd ac a gadwodd ysgol yno hyd 1845. Cawn yn y "Cambrian" am Gorphenaf 29, 1815, i'r Parch. Samuel Griffiths farw yn Cwm-mawr, yn fyr o 30 mlwydd oed.

BETH YW UNDODIAETH? Ceir holi mynych—Beth yw Undodiaeth? ac mewn llyfryn bychan chwe cheiniog, yn dwyn yr enw, "Fifty Points in favour of Unitarianism" ceir ateb Alfred Hall i'r pwnc. Nid yw'r awdwr yn honi rhagor na rhoi ei syniad ei hunan ar y pwnc, ond cred ei fod yn gosod allan yr hyn a gredir yn gyffredin yn nghylch Duw, Dyn, y Beibl, Iesu, yr Ymgnawdoliad, Cydwybod, Pechod, Iachawdwriaeth, Nefoedd, Uffern, &c., &c. Y mae'r erthyglau i gyd yn fyr ac i'r pwrpas, a chymhellwn ein gweinidogion a'n lleygwyr i ddwyn y llyfr i sylw pobl ieuainc ein heglwysi. Credwn nad yw ein ieuenctyd ddim mor hyddysg yn yr egwyddorion y safwn drostynt ag y dylasent fod, ac wele yma gyfleusdra ardderchog i esgyn rhai o ffyn cyntaf yr ysgol.—Cyfeirier—Book Room, Essex Hall, Strand, London.

Y PARCH. RHONDDA WILLIAMS.—Y mae Rhondda yn anturus ddigon, dybiwn, er enghraifft, yn y geiriau canlynol—"Yn un oes y mae'r frwydr yn erbyn Eglwys ormesol; mewn oes arall yn erbyn syniad gormesol yn nghylch y Beibl; ac os na fyddent yn ymladd yn erbyn y Pab o Rufain, yr oedd yn rhaid ymladd yn erbyn Pabau hunan-apwyntiedig Anghydffurfiaeth. Ni wyddai efe fod llawer o wahaniaeth rhyngddynt, ond y tueddai efe tuag at Rufain pe byddai raid iddo ddewis o gwbl. Bu yn ddyledswydd arnynt i ymladd dros hawl gwrywod i fotio yn un oes, ac yna wedi iddynt hwy ei chael yr oeddynt yn ormod llwfriaid i estyn y fôt i'r menywod. Anogai efe hwynt i ymladd yn ddewr. Yr oedd ganddynt i ymladd ac i enill, ac felly dyrchafu lefel gyffredin dynoliaeth, ac yna byddai'r brwydrau dyfodol ar faesydd uwch wedi eu henill."

GWILYM MARLES.—Y mae awdurdodau y *Central Welsh Board* wedi gosod cyfrol o waith Gwilym Marles, allan o "Gyfres y Fil" gan Mr. O. M. Edwards, i blant Ysgolion Canolraddol Cymru i'w pharotoi gyferbyn a phasio y *Senior Certificate* y flwyddyn nesaf. Tybed a oes a fyno hyn â'r anwybodaeth ddangoswyd gan blant Llandyssul yn ddiweddar mewn perthynas i weithiau a bywyd Gwilym?

MYFYRDOD AR FYWYD.

Pan gerddwn yn ieuanc ar lwybrau y gwir
Meddyliwn, bryd hyny, fod bywyd yn hir;
Yr oedd pedwar ugain, a thri ugain yn faith
Wrth ddringo bron einioes ar ddechreu y daith.

Wrth gripian a cherdded drwy groesffyrdd fy oes
Fe gollais y llwybrau i rinwedd a moes;
Ymdrechais ddychwelyd, fe lwyddais mewn rhai,
Fe fethais mewn eraill; yr oedd arna'i fai.

Ond nawr, pan mae diwedd fy oes yn neshau
'R wy'n gweled fod bywyd yn tyr ac yn frau;
Dymunaf cyn teimlaf fod bywyd yn flin
Y'm rhoddir dan gloion yn nghlai Rhydygwin.

DAVID HUGES.

Rhydyfydr.

Y CYFNOS.

(*Arobryn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam*).

Ei ol-lewyrch deifl huan—ar y donn
Treia'r dydd goleulan
Prudd yw wyneb hardd anian
Yn amdo'r gwyll, mud yw'r gân.

Bethesda. JAMES JONES.

CYMDEITHAS ADDYSGOL GWEINIDOGION UNDODAIDD CYMREIG.

Ysgrifenydd - Parch. JOHN DAVIES, Alltyplacca, Llanybyther.
Trysorydd - Mr. J. R. JONES, Garthowen, Llandyssul.

Dymunir cydnabod yn ddiolchgar y Tanysgrifiadau canlynol—

CAPELYBRYN.

	£	s.	c.
Mr. Simon Davies, Glyncoch	0	2	0
Dr. Davies, Blaencwrt	0	2	6
Mrs. Rees, Tanrhiw	0	0	6
Mrs. Jones, Lletty'rwenol	0	1	0
Mr. D. Evans, Esgairlygoer	0	1	0
Mr. John Thomas, Pensarn Cottage	0	1	0
Mrs. Lloyd, Clarence	0	0	6
Miss Lloyd, eto	0	0	6
Mr. D. R. Davies, C.M.	0	2	0
Mr. David Davies, Wernlas	0	0	6
Mr. David Davies, Brynderw	0	0	6
Mrs. Jones, Alexandra House	0	5	0
Mr. J. Garfield Jones, eto	0	5	0
Mrs. Jenkins, Chapel House	0	0	6
Mrs. Stephens, Millrose Park	0	0	6
Mrs. Davies, Glanrhyd	0	1	0
Miss Rees, Milford House	0	0	6
Miss Rees, Richmond House	0	0	6
Mr. Thomas Davies, Y Felin	0	2	0
Mrs. Jones, Maesllyn	0	0	6
Miss Evans, Maesyrhedydd	0	1	0
Mr. Thomas Davies, Blaencwrt	0	2	6
Mr. Thomas Evans, Fronddu	0	2	0
Mr. James Evans, Gwylfa	0	2	0
Mrs. Jones, Brynyreglwys	0	2	0
Mr. Timothy Evans, Tanralltgoch	0	0	6
Mr. John Jones, Crosshands	0	0	3
Mr. Ben Evans, Cambrian House	0	2	0
Mr. David Jones, Troedyrhiw	0	2	0
Mr. Griffith Jones, Brynllefrith	0	2	6
Mrs. Williams, Tangraigfach	0	1	0
Mr. W. J. Williams, Drefach Post Office	0	2	6
Mr. Evan Thomas, Abernant	0	2	0
Mr. Ben Jenkins, Glyn	0	0	6
Mr. G. P. Jenkins, eto	0	0	6

(*Iw barhau.*)

☞ Anfoner Tanysgrifiadau i'r Trysorydd.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand. Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1857.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

Buy through the Post!

Wouldn't it be handy to have one of the largest and finest Stores in the Kingdom just round the corner? Where you can get everything you may require for Personal Wear or complete House Furnishing.

You can have it even nearer than that. Through the medium of our Special Post Order Department our resources are brought practically to your door.

We employ a separate Staff to attend solely to Post Orders. Your order will receive the same painstaking attention as if you selected the Goods personally, because we want you to be pleased when they arrive.

IF for any reason — or no reason — you don't want them, we want them back and will at once refund the money.

We bring Ben Evans' Stores to you.

BEN EVANS & CO. LTD.

SWANSEA.